

Diwygiedig 2018-2033
Cynllun Datblygu Lleol

Cofnodion y Panel Cynghorol Cyfrol 4



Chwefror 2023



Panel Ymgynghorol y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig

19 Hydref 2022 - Cyfarfod 'Teams' Rhithwir - 10am

1 Yn bresennol

Y Cynghorwyr: Ann Davies (Cadeirydd), Tyssul Evans, Ken Howell, John James, Michael Thomas, Russel Sparks

Swyddogion: Rhodri Griffiths - Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd, Ian Llewelyn - Rheolwr Blaen-gynllunio, Steven P Murphy, Uwch-gyfreithiwr, Gail Pearce Taylor - Rheolwr Rhaglen y Bwrdd Rheoli Maetholion, Simon Clement, Bethan Lovering, Robert Neil Bateman – Swyddogion Blaen-gynllunio, Rhys T Evans – Swyddog Rhaglen EARTH - Cynllunio Defnydd Tir a Llinos Jones – Cynorthwydd Blaen-gynllunio.

Arall: Cyfieithydd.

2 Croeso a chyflwyniadau

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod gan gynnwys yr Aelodau newydd.

Cyflwyniadau

Ymddiheuriadau am absenoldeb

- Y Cynghorydd Gary Jones a'r Cynghorydd Sue Allen.

3. Adolygu ac ystyried y Cylch Gwaith

Roedd y cylch gwaith presennol fel y mae wedi'i ddarparu i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

Mae'r fersiwn hon yn ymgorffori gwahanol welliannau gyda newidiadau a wnaed gydag aelodau newydd

Y Cynghorydd C.A. Davies yw'r Aelod Cabinet newydd

Grŵp Plaid Cymru (4) y Cynghorwyr H. Davies, W.T. Evans, K. Howell, ac R. Sparks. Grŵp Llafur (3) y Cynghorwyr J. James, G.R. Jones, ac M. Thomas. Grŵp Annibynnol (1) y Cynghorydd S.M. Allen

Mae gennym un sedd wag ar y Grŵp Annibynnol (bydd hyn yn cael sylw)

Os na fyddai'r Cadeirydd ar gael, enwebwyd gan y Cynghorydd K. Howell y byddai'r Cynghorydd W. T. Evans yn camu i'r Gadair; cytunwyd ar hyn a'i gefnogi gan y Cynghorydd R. Sparks a'r Cynghorydd M. Thomas.

Nodwyd bod y Bwrdd Gweithredol wedi newid i'r Cabinet.

Penderfynwyd nodi'r Cylch Gwaith a dosbarthu fersiwn wedi'i diweddarau cyn cyfarfod nesaf y Panel.

4. Derbyd diweddariad a'r camau nesaf ar y CDLI Diwygiedig

Rhoddodd y Rheolwr Blaen-gynllunio adroddiad i'r aelodau ar Ddiweddariad y CDLI Diwygiedig a'r Camau Nesaf. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r CDLI, ei rôl a'i

bwrpas a'r broses sy'n gysylltiedig â'i baratoi a diweddariad ar gynnydd y CDLI Diwygiedig ynghyd ag esboniad o'r oedi wrth symud ymlaen â'r Cynllun. Yn hyn o beth, nodwyd yr effeithiau sy'n gysylltiedig â'r pandemig Covid-19 a chyhoeddi canllawiau ffosffad CNC ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol gwarchoddedig.

Wrth gyfeirio at y camau nesaf, tynnodd y Rheolwr Blaen-gynllunio sylw aelodau at benderfyniad y Cyngor ar 9 Mawrth 2022 i baratoi ail fersiwn o fersiwn Adneuo'r Cynllun a chytunwyd ar Gytundeb Cyflawni Diwygiedig, gan gynnwys amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun a Chynllun Cynnwys Cymunedau, gyda Llywodraeth Cymru ar 25 Awst 2022.

Rhodddwyd gwybod i'r aelodau y bydd yr ail fersiwn Adneuo yn ceisio adeiladu ar y dogfennau CDLI blaenorol a'r gwaith a wnaed gan gynnwys y sylfaen dystiolaeth ond nad yw'n fwriad newid cynnwys a chyfeiriad strategol y Cynllun.

Cyfeiriwyd at yr angen i'r Cynllun sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer twf cynaliadwy y gellir ei gyflawni - gan adlewyrchu uchelgeisiau'r Sir a diwallu anghenion ei chymunedau. Bydd hyn yn cynnwys diweddariadau i sicrhau ei fod yn cael ei gefnogi gan sylfaen dystiolaeth gadarn sydd wedi'i diweddarau. Cyfeiriwyd yn benodol at eitem 6 ar yr agenda fel un sy'n rhoi diweddariad ar y dystiolaeth ar gyfer yr amcanestyniadau tai a thwf economaidd.

Rhodddod y Rheolwr Blaen-gynllunio adborth i ymholiad a godwyd ynghylch y Gymraeg, Tai Fforddiadwy ac Ail Gartrefi.

Penderfynwyd diolch i'r Tîm Blaen-gynllunio am eu gwaith

5. *Derbyn ac ystyried y diweddariad ar ffosffadau mewn perthynas â'r CDLI Diwygiedig*

Estynnwyd llongyfarchiadau i Gail Pearce Taylor ar ei swydd newydd fel Rheolwr Rhaglen y Bwrdd Rheoli Maetholion

Rhodddod Gail Pearce Taylor drosolwg ar ffosffadau mewn afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig gwarchoddedig a'r dull arfaethedig mewn perthynas â'r CDLI Diwygiedig sy'n dod i'r amlwg wrth fynd i'r afael â'r mater.

Mae'r effeithiau sy'n deillio o ffosffadau a Chanllawiau CNC mewn perthynas ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol gwarchoddedig yn rhwystr strategol sylweddol i dwf cymunedau o fewn dalgylchoedd yr effeithir arnynt yn y dyfodol.

Yng Nghaerfyrddin rydym wedi cynhyrchu Cyfrifiannell Cyfrifo Maetholion a Chanllawiau Lliniaru ar gyfer ffosffad, sef yr unig un a gynhyrchwyd ac a gyhoeddwyd yng Nghymru.

Mae afon Tywi yn pasio fel y mae. Mae afonydd Teifi a Chleddau yn methu.

Mae Ceredigion a Sir Benfro'n gweithio gyda Sir Gaerfyrddin yn rhanbarthol ac yn defnyddio dogfennau Sir Gaerfyrddin fel sail i'w rhai eu hunain.

Diolchodd yr aelodau i Gail Pearce Taylor am ei gwaith ac am y gwaith sydd wedi'i wneud gan y Tîm.

Ymddiheurodd Rhodri Griffiths ei fod yn hwyr a chyflwynodd ei hun i'r aelodau newydd

7. Derbyn cyflwyniad ar amcanestyniadau Tai a Thwf Economaidd

Rhoddodd Simon Clement y cyflwyniad ar y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas ag amcanestyniadau Tai a Thwf Economaidd ar gyfer cyfnod y Cynllun 2018 – 2033. Fel rhan o'r cyflwyniad amlinellwyd y cyd-destun mewn perthynas â'r cyfraddau adeiladu presennol a nifer yr anheddau sydd â chaniatâd cynllunio. Amlinellodd y cyflwyniad gyfres o senarios twf i'w hystyried fel rhan o'r gwaith o baratoi'r ail CDLI Diwygiedig Adneuo.

Bu'r Rheolwr Blaen-gynllunio a'r Swyddogion yn mynd i'r afael â chwestiynau a godwyd gan y Panel.

8 Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod hwn.

Cytunwyd bod y cofnodion yn cael eu dosbarthu cyn y cyfarfod nesaf.

9 Diwedd y cyfarfod a dyddiad y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:02 PM.

Dyddiad y cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd (dyddiad i'w gadarnhau).

Panel Ymgynghorol y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig

30 Tachwedd 2022 - Cyfarfod 'Teams' Rhithwir - 2pm

1. Hefyd yn bresennol

Y Cyngorwyr: Ann Davies (Cadeirydd), Tyssul Evans, Ken Howell, John James, Michael Thomas.

Swyddogion: Ian Llewelyn - Rheolwr Blaen-gynllunio, Steven P Murphy, Uwch-gyfreithiwr, Gail Pearce Taylor - Rheolwr Rhaglen y Bwrdd Rheoli Maetholion, Simon Clement, Bethan Lovering, - Swyddogion Blaen-gynllunio, Beau Gray - Swyddog Polisi Cynaliadwyedd, Rhys T Evans - Swyddog Rhaglen EARTH - Cynllunio Defnydd Tir a Llinos Jones - Cynorthwydd Blaen-gynllunio.

Arall: Cyfieithydd.

2. Croeso a Chyflwyniadau

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod.

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyng. Russel Sparks, y Cynghorydd Sue Allen a Rhodri Griffiths - Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd,

3. Cofnodion

Darparwyd cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 i'r Aelodau cyn y cyfarfod ac fe'u cadarnhawyd gan y Cynghorydd Ken Howells a'r Cynghorydd Tyssul Evans.

Adolygu ac ystyried y Cylch Gwaith

Darparwyd y cylch gorchwyl diweddaraf i'r Aelodau ac roedd y fersiwn yn cynnwys amrywiol newidiadau a wnaed o ran aelodau newydd ac fe'i cadarnhawyd gan y Cynghorydd Gary Jones a'r Cynghorydd Tyssul Evans.

4. I dderbyn yr adroddiad ar yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo

Roedd yr aelodau wedi derbyn y dogfennau cyn y cyfarfod, rhoddodd y Rheolwr Blaen-gynllunio drosolwg ar y rhain: -

Bu'r panel yn ystyried yr adroddiad a oedd yn nodi'r Ail Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig Adneuo Drafft a oedd yn nodi gweledigaeth o ran defnydd y tir, amcanion strategol a gofynion twf strategol y Cyngor hyd at 2033.

Roedd y CDLI yn cynnwys set fanwl a chynhwysfawr o bolisiau a darpariaethau, gan gynnwys dyraniadau safle-benodol at ddefnydd tai a chyflogaeth, yn ogystal ag ystyriaethau amgylcheddol a gofodol eraill. Cydnabuwyd bod cyfres o ffactorau wedi effeithio ar gynnydd a chynnwys y Cynllun gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, lefelau ffosffad mewn afonydd gwarchoddedig a phandemig Covid-19. Amlinellodd yr adroddiad fod yr Ail Gynllun Adneuo Diwygiedig wedi ei baratoi ar gyfer ei gyhoeddi ynghyd â'i ddogfennau ategol fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol am gyfnod statudol am 6 wythnos o leiaf gan ddechrau yn gynnar yn 2023.

Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y prosesau wrth symud ymlaen a byddai'r Cynllun yn destun archwiliad cyhoeddus gan Arolygydd Cynllunio a benodwyd gan Lywodraeth Cymru gyda'r bwriad o'i fabwysiadu'n ffurfiol yn 2024.

Bu'r Rheolwr Blaen-gynllunio a'r Swyddogion yn ateb cwestiynau a godwyd gan y Panel ar Lefel Twf, Canol Trefi a'r Gymraeg

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith.

4. Derbyn cyflwyniad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Beau Gray (Rhoddodd y Swyddog Polisi Cynaliadwyedd gyflwyniad)

Nododd y Swyddog Polisi Cynaliadwyedd fod yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn weithdrefn sy'n sicrhau bod y CDLI yn gydnaws â nodau datblygu cynaliadwy. Mae'n fodd o nodi a lliniaru unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r cynllun eu cael, ac mae'n sicrhau bod opsiynau a pholisïau'r cynllun yn gadarn ac yn briodol yng ngoleuni dewisiadau rhesymol eraill. Mae'r broses a ddewisir o ran yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ymgorffori 6 asesiad ar wahân sy'n cael eu gosod ar blatfform adrodd helaeth ochr yn ochr â'r Cynllun diwygiedig. Pob un yn ofynnol o ran amrywiol ddeddfwriaethau ochr yn ochr ag ymrwymadau eraill a nodir gan bolisi cynllunio Cymru. Y rhain yw'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ar y cyd a'r Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Mae'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd Ewropeaidd ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Fflora a Ffawna Gwyllt yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru drwy'r Rheoliadau Cynefinoedd. Mae hyn yn darparu amddiffyniad cyfreithiol i amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau y bernir bod ganddynt bwysigrwydd Ewropeaidd. Er mwyn bodloni'r gofynion a nodir gan y rheoliadau hyn, pwrpas yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw penderfynu a yw'r cynllun, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau eraill, yn debygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd yn Sir Gaerfyrddin neu gerllaw. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gydag ymgynghorwyr allanol ac arbenigwr i sicrhau nad oes niwed yn cael ei wneud i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig/Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig oherwydd ffosffadau.

Yn gyffredinol, byddai'r Cynllun Adneuo diwygiedig yn dod â manteision sylweddol o safbwynt darparu'r tir ar gyfer tai a chyflogaeth sydd ei angen i gynnal twf cynaliadwy yn Sir Gaerfyrddin, a'i fod yn perfformio yn gadarnhaol yn erbyn amcanion economaidd-gymdeithasol y fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Fel sy'n wir am y rhan fwyaf o ddatblygiadau, rhagwelir rhai effeithiau negyddol posibl (e.e. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd), fodd bynnag, gellir lleihau'r rhain a/neu eu hosgoi'n gyfan gwbl gyda'r mesurau lliniaru arfaethedig.

Bu'r Rheolwr Blaen-gynllunio a Rheolwr y Bwrdd Rheoli Maetholion yn ateb cwestiynau a godwyd gan y Panel ar Ffosffadau.

Diolchodd y Cynghorydd Ann Davies (Cadeirydd) i Beau Gray ar ei gyflwyniad.

5. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod hwn

Cytunwyd bod y cofnodion yn cael eu dosbarthu cyn y cyfarfod nesaf.

6. Diwedd y cyfarfod a dyddiad y cyfarfod nesaf

Daeth y cyfarfod i ben am 15:44 pm.

Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf ym mis Ebrill yn dilyn yr ymgynghoriad (dyddiad i'w gadarnhau).